GORCHYMYN TRAFFORDD YR M4 A CHEFNFFORDD YR A470 (CYFNEWIDFA CORYTON, CAERDYDD I GYLCHFAN CEFN COED, MERTHYR TUDFUL) (GWAHARDD CERBYDAU A BEICWYR DROS DRO) 2023

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar draffordd yr M4 a chefnffordd yr A470, neu gerllaw iddynt, rhwng Cyfnewidfa Coryton, Caerdydd a Chylchfan Cefn Coed, Merthyr Tudful.

Effaith y Gorchymyn yw gwahardd dros dro bob cerbyd (ac eithrio'r rhai a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys neu ar gyfer y gwaith) a beicwyr rhag mynd ar y darnau o draffordd yr M4, ac ar hyd ddarnau penodol o gefnffordd yr A470 pan fo'n ofynnol gwneud gwaith ar safleoedd penodol, rhwng Gylchfan Coryton a Chylchfan Cefn Coed, fel y'u disgrifir yn yr Atodlen i'r Hysbysiad hwn. Disgrifir y llwybrau eraill yn yr Atodlen honno hefyd.

Daw'r Gorchymyn i rym ar 9 Mai 2023. Disgwylir y bydd y gwaharddiadau dros dro yn weithredol yn ysbeidiol dros nos (20:00 – 06:00 o'r gloch) o 9 Mai 2023 am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf. Arddangosir hysbysiad ynghylch y gwaharddiadau tuag un wythnos cyn bod angen cau darn penodol o'r ffordd.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd.

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

J SADDLER
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

YR ATODLEN

Y darnau o ffyrdd ymadael neilltuedig tua'r dwyrain a thua'r gorllewin yr M4 wrth Gyffordd 32 (Coryton), sy'n arwain at yr A470 tua'r gogledd.

Y darn o gefnffordd yr A470, gan gynnwys yr holl ffyrdd ymuno ac ymadael o Gyfnewidfa Coryton, Caerdydd i Gylchfan Cefn Coed, Merthyr Tudful.

THE M4 MOTORWAY & A470 TRUNK ROAD (CORYTON INTERCHANGE, CARDIFF TO CEFN COED ROUNDABOUT, MERTHYR TYDFIL) (TEMPORARY PROHIBITION OF VEHICLES & CYCLISTS) ORDER 2023

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary to undertake works on or near the M4 motorway & A470 trunk road between Coryton Interchange, Cardiff and Cefn Coed Roundabout, Merthyr Tydfil.

The effect of the Order is to temporarily prohibit all vehicles (other than those being used by the emergency services and for the works) from proceeding on the lengths of the M4 motorway, and over specific lengths of the A470 trunk road when work at a particular site is required, between Coryton Roundabout and Cefn Coed Roundabout as described in the Schedule to this Notice. The alternative route arrangements are also described therein.

The Order comes into force on 9 May 2023. The temporary prohibitions are expected to operate intermittently overnight (20:00 – 06:00 hours) from 9 May 2023 for a maximum duration of 18 months. Notice of the prohibitions will be displayed approximately one week before the closure of a particular length of road.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at https://gov.wales/road-orders.

A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

J SADDLER
Transport
Welsh Government

SCHEDULE

The lengths of the M4 eastbound and westbound dedicated exit slip lanes at Junction 32 (Coryton), leading to the northbound A470.

The length of the A470 trunk road, including all entry and exit slip roads from Coryton Interchange, Cardiff to Cefn Coed Roundabout, Merthyr Tydfil.

Ffordd gyswllt neilltuedig yr A470 o'i chyffordd â phrif gerbytffordd gylchredol Cyfnewidfa Coryton i'w chyffordd â phrif gerbytffordd tua'r de cefnffordd yr A470.

The dedicated A470 link road from its junction with the main circulatory carriageway of Coryton Interchange to its junction with the main southbound carriageway of the A470 trunk road.

Llwybrau eraill

Codir arwyddion priodol i nodi'r gwyriad ar gyfer y llwybrau eraill a byddant yn amrywio gan ddibynnu ar ben y daith a phryd y bydd darn penodol o'r M4 a'r A470 a ddisgrifir uchod ar gau dros dro i draffig.

Mae llwybrau eraill ar gael drwy fynd ar yr A4054, A473, A472, A465, A468, A4060, A470, A4058 a'r B4275, fel y bo'n briodol.

Alternative routes

The alternative routes will be signed with appropriate diversion signs and will vary depending on destination and when a particular length of the M4 and A470 within the above description is temporarily closed to traffic.

Alternative routes are available via the A4054, A473, A472, A465, A468, A4060, A470, A4058 and B4275, as appropriate.